

Sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau

Canllaw hawdd i brofion sgrinio pan fyddwch yn feichiog



Cynnwys y llyfryn hwn

Tudalen



Eich dewis chi

3



Gwybodaeth am y profion hyn

4



Syndrom Down

6



Syndrom Edwards a syndrom
Patau

7



Canlyniadau'r profion

8



Eich dewis chi



Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth am brofion y gallwch eu cael.

Gall y profion hyn ganfod pethau'n gynnar, ond mae'n bosibl na fyddan nhw'n canfod pob dim.

Gall y profion ddweud mwy wrthym am eich babi a gallwn roi gwybodaeth i chi neu ddweud wrthyich am y driniaeth ar eich cyfer chi a'ch babi.



Gall y profion ddangos a yw'n bosibl bod gan eich babi syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau.

Gallwch ddewis cael y profion neu beidio.



Gall y profion eich helpu i wneud dewisiadau am eich gofal pan fyddwch yn feichiog.

Os ydych yn pryderu, gallwch siarad â'ch bydwraig neu feddyg teulu.



Gwybodaeth am y profion hyn



Dim ond i staff iechyd sydd angen eu gweld y byddwn yn dangos canlyniadau'r profion.



Mae'n bwysig dweud wrth eich bydwraig am unrhyw broblemau iechyd sydd gennych.

Mae'n anghyffredin i fabi gael syndrom Down.

Mae'n anghyffredin iawn i fabi gael syndrom Edwards a syndrom Patau.



Os ydych rhwng 11 ac 14 wythnos yn feichiog, gallwch gael y prawf am y tri chyflwr.

Gallwch gael y prawf hwn os ydych yn cael un babi neu efeilliaid.



Os ydych rhwng 15 ac 18 wythnos yn feichiog, gallwch gael prawf ar gyfer syndrom Down, **ond nid** syndrom Edwards a syndrom Patau.

Gallwch gael y prawf hwn os ydych yn cael un babi yn unig. Ni allwch gael y prawf hwn os ydych yn cael gefeilliaid.



Mae dwy ran i'r prawf.

1. Rydym yn sganio eich bol.



2. Rydym yn cymryd ychydig o waed o'ch braich.

Nid yw'r profion hyn yn niweidio eich babi.



Gall y ddau brawf hyn ganfod a oes siawns bod gan eich babi:

- Syndrom Down, neu
- Syndrom Edwards neu syndrom Patau.

Ni all y profion ddweud yn sicr a oes gan eich babi un o'r cyflyrau.

Gall y profion ond dweud wrthyf os oes siawns uwch neu siawns is.



Syndrom Down



Bydd gan fabi sy'n cael ei eni â syndrom Down anableddau dysgu.

Mae hyn yn golygu y bydd yn ei chael hi'n anoddach deall a dysgu pethau newydd.

Ni allwn wybod faint o anabledd dysgu fydd ganddo.



Bydd y rhan fwyaf o blant gyda syndrom Down yn mynd i'w hysgol gynradd leol.

Gall nifer o bobl gyda syndrom Down gael swyddi a byw ar eu pen eu hunain.



Weithiau mae gan bobl sydd â syndrom Down broblemau iechyd eraill. Gall rhai o'r problemau hyn fod yn ddifrifol.



Syndrom Edwards a syndrom Patau



Mae'r rhan fwyaf o fabanod gyda syndrom Edwards neu syndrom Patau yn marw cyn iddyn nhw gael eu geni neu'n fuan ar ôl iddyn nhw gael eu geni.

Ychydig iawn ohonyn nhw sy'n byw i fod yn oedolion.



Mae gan bob babi â syndrom Edwards neu syndrom Patau nifer o broblemau iechyd difrifol iawn.



Canlyniadau'r profion



Os oes gan eich babi siawns uwch o gael un o'r cyflyrau hyn, bydd rhywun yn cysylltu â chi o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl i chi gael y prawf.

Os oes gan eich babi siawns is o gael unrhyw un o'r cyflyrau hyn, bydd y fydwraig yn dweud wrthyfch y tro nesaf y byddwch yn ei gweld.



Os oes siawns uwch y bydd gan eich babi un o'r tri chyflwr hyn, ac rydych yn cael un babi neu efeilliaid, gallwn roi prawf arall i chi o'r enw y prawf cynenedigol anfewnwthiol (PCA).

Rydym yn cymryd ychydig o waed o'ch braich.

Nid yw'r prawf yn niweidio eich babi.



Byddwch yn cael canlyniadau'r prawf PCA o fewn tua dwy wythnos. Bydd y canlyniad yn dweud wrthyfch:

- os nad ydym yn meddwl bod gan eich babi un o'r cyflyrau hyn, neu
- os oes siawns uchel y bydd gan eich babi un o'r cyflyrau hyn.



Os oes siawns uwch ar y prawf sgrinio bod gan eich babi un o'r cyflyrau hyn, neu os yw'r PCA yn dangos bod siawns uchel, gallwn roi prawf arall i chi, o'r enw y prawf ymyrrol.

Mae siawns o tua 1 o bob 200 y bydd y prawf ymyrrol yn gwneud i chi gamesgor (*miscarry*).

Os ydych yn gamesgor, ni fydd eich babi yn byw.

Byddwch yn gallu siarad am y prawf gyda bydwraig.

Gallwch wrthod y prawf hwn.



Os oes siawns uwch bod gan eich babi un o'r cyflyrau hyn a'ch bod rhwng 11 ac 14 wythnos o feichiogrwydd, gallwch gael prawf samplu filws corionig.

Mae hwn weithiau'n cael ei alw'n brawf CVS.



Mae hyn yn golygu y bydd nodwydd denau iawn yn cael ei rhoi yn eich bol.

Mae hyn yn cymryd darn bach o'r brych. Mae'r brych yn eich cysylltu chi a'r babi.

Gallwn brofi hwn ar gyfer y cyflyrau.



Os oes siawns uwch bod gan eich babi un o'r cyflyrau hyn a'ch bod wedi bod yn feichiog am 15 wythnos neu fwy, gallwch gael amniosentesis.



Os cewch amniosentesis, bydd nodwydd denau iawn yn cael ei rhoi yn eich bol.

Mae hyn yn cymryd ychydig iawn o'r hylif sydd o gwmpas eich babi. Caiff hwn ei brofi hwn ar gyfer y cyflyrau.



Dim ond nifer fach o fabanod sydd ag un o'r cyflyrau hyn.

Bydd rhai menywod sy'n cael gwybod bod gan eu babi un o'r cyflyrau hyn yn penderfynu parhau â'r beichiogrwydd.

Mae'n bosibl y bydd rhai menywod sy'n cael gwybod bod gan eu babi un o'r cyflyrau hyn yn dewis dod â'r beichiogrwydd i ben. Mae hyn yn golygu na fydd y babi'n byw.



Os oes gan eich babi syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau, byddwn yn eich cefnogi i benderfynu a ydych am barhau â'ch beichiogrwydd neu ddod ag ef i ben. Eich penderfyniad chi yw hyn a byddwch yn cael cynnig cymorth ar ôl hynny.



Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth eich bydwraig os ydych yn symud tŷ.